

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) (Rhif 2) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) (Rhif 2) 2021.

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Agricultural Holdings (Units of Production) (Wales) (No. 2) Order 2021.

**Lesley Griffiths**  
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

**26 Hydref 2021**

## **RHAN 1**

### **Disgrifiad**

1. Mae gan rai tenantiaethau amaethyddol hawliau olynu. Yn yr achosion hyn, o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 ('Deddf 1986'), gall perthynas agos i'r tenant ymadawedig neu'r tenant sy'n ymddeol wneud cais i'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol ('TTA') am gyfarwyddyd ynghylch a oes gan y perthynas yr hawl i olynu i'r denantiaeth. Un o'r profion wrth sefydlu hawl olynu yw bodloni'r TTA nad yw'r ymgeisydd eisoes yn meddiannu "uned fasnachol o dir amaethyddol" mewn man arall. Pe bai hyn yn wir, ni fyddai'r perthynas agos yn gymwys i gael olyniaeth yn awtomatig.
2. Mae Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) (Rhif 2) 2021 ('y Gorchymyn') yn nodi ffigurau ar gyfer incymau amaethyddol sy'n gysylltiedig ag amryfal weithgareddau ffermio, ac fe'u defnyddir wrth benderfynu a yw'r tir dan sylw yn 'uned fasnachol o dir amaethyddol'.

### **Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

3. Mae'n ofynnol o dan Ddeddf 1986 i Weinidogion Cymru ragnodi drwy orchymyn unrhyw unedau cynhyrchu sy'n ymwneud â thir amaethyddol yr ystyrir eu bod yn briodol, am gyfnod o ddeuddeng mis a bennir yn y gorchymyn. Y Gorchymyn presennol sydd mewn grym yw Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2021 ('Gorchymyn 2021'), sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 12 Medi 2019 ac 11 Medi 2020. Bydd y Gorchymyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 12 Medi 2020 a 11 Medi 2021.
4. Mae gorchymynion fel arfer yn ôl-weithredol oherwydd mae'n dibynnu ar bryd mae'r ystadegau sylfaenol ar gael. Cânt eu llunio gan Defra ac fe'u defnyddir i gyfrifo gwerthoedd tir yng Nghymru. Bu rhagor o oedi wrth gyflwyno data eleni oherwydd effeithiau'r pandemig ar adnoddau.
5. Mae unrhyw achosion sy'n symud ymlaen i'r TTA o 12 Medi 2020 wedi'u gohirio hyd nes y gwneir y Gorchymyn. Bydd angen i'r ddeddfwriaeth fod yn gymwys yn ôl-weithredol - gofynnwyd am gytundeb ar gyfer darpariaethau ôl-weithredol o 12 Medi 2020 ac fe'i rhoddwyd gan y Cwnsler Cyffredinol ar y mater hwn.

### **Cefndir deddfwriaethol**

6. Rhoddir pwerau i Weinidogion Cymru wneud y Gorchymyn gan baragraff 4 o Atodlen 6 i Ddeddf 1986.
7. Mae paragraff 4 o Atodlen 6 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn, gan ragnodi unrhyw unedau cynhyrchu sy'n ymwneud â thir amaethyddol yr ystyrir eu bod yn briodol am unrhyw gyfnod o 12 mis a bennir o fewn y gorchymyn. Rhoddwyd y pwerau hyn i'r Gweinidog yn

wreiddiol (mae adran 96 o Ddeddf 1986 yn nodi mai'r Ysgrifennydd Gwladol yw hwn mewn perthynas â Chymru). Trosglwyddwyd y pwerau hyn wedyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672) ac Atodlen 1 iddo, ac maent bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

8. Caiff y Gorchymyn ei wneud dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

### **Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

9. Caiff gorchymynion a wneir o dan baragraff 4 o Atodlen 6 i Ddeddf 1986 eu gwneud yn flynyddol ac maent yn nodi ffigurau ar werthoedd tir a baratowyd gan Lywodraeth Cymru. Defnyddir y ffigurau hyn gan y TTA i asesu incwm blynyddol net tir cymwysedig wrth gyfrifo'r swm sydd i'w ystyried yn incwm blynyddol net o dir sy'n ymwneud ag olyniaeth tenantiaeth.
10. Mae gwneud y Gorchymyn i Gymru yn galluogi cynnal asesiadau incwm blynyddol net at ddibenion achosion o olyniaeth tenantiaeth yng Nghymru. Paratoir asesiadau incwm blynyddol net ar gais y TTA.
11. Daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Rhagfyr 2021. Heb Orchymyn 2021(2), ni fyddai gan y TTA y ffigurau i benderfynu ar achosion o'r fath yng Nghymru.
12. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ar y Gorchymyn. Ni ystyriwyd bod angen i'r Gorchymyn hwn fod yn destun ymgynghoriad gan fod yr offeryn yn cael ei wneud yn flynyddol, yn dechnegol ei natur ac nid yw'n ddadleuol.

### **Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)**

13. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn. Mae newidiadau a wneir gan y Gorchymyn yn ddiwygiadau rheolaidd i system sy'n bodoli eisoes (proses flynyddol sy'n diweddarau ffigurau NAI y blynyddoedd blaenorol) nad ydynt yn newid y polisi na'i effaith mewn unrhyw ffordd arwyddocaol. Felly, nid ystyriwyd bod angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol.
14. Ar ben hynny, nid yw'r ddeddfwriaeth yn cael unrhyw effaith ar y dyletswyddau statudol (adrannau 77-79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) nac ar y partneriaid statudol (adrannau 72-75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).